



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2011

Awdur: Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyf: 515A2010

Adroddiad Archwilio Blynyddol **Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda**

Cynnwys

Crynodeb	4
Adroddiad Manwl	
Yr adroddiad hwn	7
Adran 1: Archwilio Cyfrifon	8
Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol BILI Hywel Dda, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater	8
Adran 2: Rheoli Ariannol	11
Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu trefniadau rheolaeth gyllidebol a chynllunio ariannol cadarn, er bod y sefydliad yn wynebu heriau ariannol sylweddol	11
Adran 3: Llywodraethu ac atebolrwydd	14
Er bod trefniadau llywodraethu yn gadarn ar y cyfan, mae angen gwneud gwaith pellach i atgyfnerthu trefniadau mewn rhai meysydd pwysig megis rheoli risg a llywodraethu gwybodaeth	14
Adran 4: Rheoli adnoddau	22
Er y gwnaed cynnydd sylweddol, mae angen cyflawni gwaith pellach i atgyfnerthu 'galluogwyr' pwysig sy'n gallu bod o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau	22
Adran 5: Adolygiadau o archwiliadau perfformiad penodol	27
Mae'r gwaith archwilio perfformiad wedi amlygu enghreifftiau cadarnhaol o ddarparu gwasanaethau, ond hefyd gyfleoedd i leihau amrywiaeth mewn nifer o feysydd gwasanaeth a gwella diogelwch ac effeithlonrwydd rheoli meddyginiaethau	27
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Llythyr Archwilio Blynnyddol diwethaf	30

Statws yr adroddiad hwn

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei harchwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Crynodeb

1. Anfonwyd Llythyr Blynyddol interim i Fwrdd lechyd Lleol Hywel Dda (y Bwrdd lechyd) ym mis Mai 2010. Roedd a wnelo'r adroddiad hwnnw â'm gwaith archwilio yn y cyfnod chwe mis terfynol hyd at 30 Medi 2009 mewn perthynas â chyrrff rhagflaenol y Bwrdd lechyd.
2. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni yn y Bwrdd lechyd ddiwedd 2009 a thrwy gydol 2010. Mae hyn yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 o ran archwilio cyfrifon 2009-10 a threfniadau'r Bwrdd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
3. Rwyf wedi mynd ati i gynllunio'r archwiliad yn seiliedig ar risg. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar y risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd lechyd sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn.
4. Cafodd y Bwrdd lechyd flwyddyn gyntaf heriol. Mae uno Ymddiriedolaeth GIG gymhleth (a oedd ddim ond wedi uno'n ddiweddar) â thri hen Fwrdd lechyd Lleol yn dasg sylweddol. Mae'r Bwrdd lechyd newydd yn cyflogi tua 9,000 o staff ac mae gwasanaethau wedi'u gwasgaru ar draws amryw o safleoedd sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang. Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymateb yn dda i'r heriau hyn. Mae wedi'i reoli'n dda ac mae wedi sefydlu strategaeth gorfforaethol interim ac wedi datblygu strwythurau newydd. Ceir ymrwymiad i sicrhau gwasanaethau diogel a chost effeithiol, ond mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen cyflawni rhagor o waith. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Archwilio cyfrifon

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Bwrdd lechyd Lleol Hywel Dda, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a Rheolwyr Ariannol y Pwyllgor Archwilio at sawl mater

- Paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd lechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.
- Roedd gan y Bwrdd lechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamdatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd lechyd wella ei drefniadau ar gyfer rheolaeth gyllidebol ac asedau sefydlog ymhellach.
- Llwyddodd y Bwrdd lechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009-10, ond dim ond oherwydd arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad.

Rheoli Ariannol

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu trefniadau rheolaeth gyllidebol a chynllunio ariannol cadarn, er bod y sefydliad yn wynebu heriau ariannol sylweddol.

- Mae trefniadau Cynllunio Ariannol ar waith, er bod angen iddynt fod yn fwy cynhwysol a thymor hwy wrth fynd ymlaen.
- Mae'r gwaith o fonitro perfformiad yn erbyn cyllidebau yn gwella, ond mae angen i drefniadau sicrhau bod dirprwyo digonol.
- Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2009-10, ond dim ond ar ôl cael cymorth sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ceir diffyg sylfaenol a rhagwelir diffyg o £32 miliwn ar gyfer 2010-11 os cyflawnir arbedion arfaethedig o £27 miliwn, er bod y Bwrdd Iechyd ymhell ar ei hôl hi ar hyn o bryd.

Llywodraethu ac atebolrwydd

Er bod trefniadau llywodraethu yn gadarn ar y cyfan, mae angen gwneud gwaith pellach i atgyfnerthu trefniadau mewn rhai meysydd pwysig megis rheoli risg a llywodraethu gwybodaeth.

- Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfeiriad strategol clir ac mae'n gwneud cynnydd wrth ddilyn proses gytûn a fydd yn datblygu model clinigol a gwasanaeth newydd. Bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar ystod o ffactorau megis ymgysylltu ac atebolrwydd effeithiol, adleoli staff a sicrhau adnoddau digonol i greu atebion newydd o ran ystadau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strwythur sefydliadol matrices, ond nid yw'r strwythur hwn wedi'i sefydlu'n llawn nac yn gwbl weithredol eto.
- Mae Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ac mae wedi sefydlu fframwaith llywodraethu cadarn ar gyfer y sefydliad.
- Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith rheoli risg, ond nid yw'r trefniadau hyn wedi'u hymgorffori eto, ac mae angen cyflawni cryn dipyn o waith cyn iddynt ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol.
- Mae systemau rheolaeth fewnol yn gadarn ar y cyfan, er bod gwasanaethau archwilio clinigol wedi cydnabod cyfyngiadau o ran adnoddau.
- Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar y cyfan ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, ond gallai adnoddau cyfyngedig arafu cynnydd. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu gwybodaeth gwan sy'n peri risg sylweddol.
- Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn gadarn ac yn gyfannol ac, er bod gwybodaeth am berfformiad yn gwella, mae'r ffaith nad oes system sicrwydd data gynhwysfawr yn peri risg.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu trefniadau priodol er mwyn hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth iddo wneud ei waith.

Rheoli adnoddau

Er y gwnaed cynnydd sylweddol, mae angen cyflawni gwaith pellach i atgyfnerthu 'galluogwyr' pwysig sy'n gallu bod o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau

- Mae'r modd y mae'r Bwrdd lechyd yn cynllunio'r gweithlu yn datblygu o hyd ac mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd lechyd.
- Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu dull cadarn o reoli ei sail asedau.
- Mae trefniadau caffael yn datblygu'n dda, er bod y Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach.
- Mae'r broses o sefydlu trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn mynd rhagddi, ond mae'r Bwrdd lechyd yn wynebu heriau sylweddol o hyd i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel y bwriedir.
- Mae'r Bwrdd lechyd yn dal i ddatblygu dull mwy strategol o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i wella ar ei weithgareddau ad hoc blaenorol.

Adolygiadau o archwiliadau perfformiad penodol

- Mae'r gwaith archwilio perfformiad wedi amlygu enghreifftiau cadarnhaol o ddarparu gwasanaethau, ond hefyd gyfleoedd i leihau amrywiaeth mewn nifer o feysydd gwasanaeth, a gwella diogelwch ac effeithlonrwydd rheoli meddyginiaethau.

Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

5. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 21 Rhagfyr 2010. Yna caiff ei gyflwyno i gyfarfod dilynol o'r Bwrdd a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd lechyd.
6. Rydym yn gwerthfawrogi cymorth a chydweithrediad staff ac aelodau annibynnol y Bwrdd lechyd yn ystod yr archwiliad ac edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd lechyd yn y dyfodol.

Yr adroddiad hwn

7. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau allweddol gwaith archwilio a gyflawnwyd rhwng mis Hydref 2009 a mis Tachwedd 2010. Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
 - a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd;
 - b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu;
 - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
8. Mewn perthynas â c), rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
 - canlyniadau gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig o'r Bwrdd Iechyd, gan archwilio'r trefniadau o ran rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a rheoli adnoddau;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau;
 - gwaith arall megis ymarferion paru data.
9. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad archwilio i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, a restrir yn Atodiad 1.
10. Mae fersiwn derfynol yr adroddiad manwl sy'n deillio o'm gwaith asesu strwythuredig yn cael ei lunio o hyd, ond mae Cyfarwyddwyr Gweithredol wedi cytuno ar y negeseuon o'r gwaith hwnnw, sydd wedi'u nodi yma.
11. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
 - Archwilio cyfrifon;
 - Rheoli Ariannol;
 - Llywodraethu ac atebolrwydd;
 - Rheoli adnoddau;
 - Adolygiadau o archwiliadau perfformiad penodol.
12. Nododd y Strategaeth Archwilio ar gyfer 2009-10 y ffi archwilio arfaethedig, sef £463,512 (ynghyd â TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar gyfer 2009-10, ar y sail bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi arfaethedig.

Adran 1: Archwilio cyfrifon

13. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2009-10. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifau arian parod. Mae archwilio datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
14. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i archwilwyr roi eu barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd o gamdatganiadau perthnasol - a achoswyd drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi'i pharatoi'n briodol;
 - rheoleidd-dra'r gwariant ac incwm.
15. Wrth gyflwyno'r farn hon, mae'n ofynnol i archwilwyr gydymffurfio â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs). Wrth gyflawni'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi archwilio digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd;
 - systemau ariannol a ddefnyddir i lunio'r Datganiadau Ariannol.

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at sawl mater

Paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

16. Cawsom y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010 erbyn y terfyn amser sef 14 Mai 2010 a oedd yn dipyn o gamp. Mae'r adran Gyllid wedi wynebu her sylweddol ym mlwyddyn gyntaf y Bwrdd Iechyd o ran dwyn ynghyd y systemau ariannol a sefydlu trefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth gyllidebol a chyflwyno adroddiadau.

17. Yn unol â Safon Archwilio Ryngwladol 260 (ISA 260) mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Mhartner Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2010. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

Arddangosyn 1: Materion a nodwyd yn Adroddiad ISA 260

Mater	Sylwadau'r archwilydd
Roedd gwerth £333,000 o gamddatganiadau nas cywirwyd.	Cytunodd y Pwyllgor Archwilio â swyddogion na ddylid newid y datganiadau drafft ar gyfer yr eitemau hyn.
Gwnaed nifer o gywiriadau i'r datganiadau ariannol	Diwygiwyd y Cyfrifon drafft. Effaith net y diwygiadau hyn oedd cynnydd o £1.4 miliwn mewn gwariant. Roedd y Bwrdd lechyd yn gallu cytuno ar gynnydd o £1.34 miliwn i'w Derfyn Adnoddau Refeniw gyda Llywodraeth y Cynulliad. Felly roedd y Bwrdd lechyd yn gallu aros o fewn y Terfyn Adnoddau Refeniw a addaswyd.
Mae angen gwella'r trefniadau i amcangyfrif croniadau diwedd blwyddyn	Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd wneud nifer o amcangyfrifon o groniadau gwariant diwedd blwyddyn. Mae angen gwella'r trefniadau hyn ar gyfer 2010-11, yn enwedig ar gyfer gwariant y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd a gwariant Deintyddol. Ar gyfer y ddwy eitem hyn, mae'n debyg fod gwariant a'r croniadau diwedd blwyddyn wedi'u gorddatgan ond, oherwydd diffyg gwybodaeth, nid ydym yn gallu mesur graddau'r gorddatganiad. Fodd bynnag, rydym yn fodlon nad yw'r symiau dan sylw yn berthnasol.

18. Ym mis Rhagfyr 2010 rhoesom farn ddiamedod ar ddatganiadau ariannol Cronfeydd Elusennol y Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, nodwyd gennym y gallai'r Bwrdd lechyd wella ei brosesau ar gyfer cau ac archwilio cyfrifon a gwella trefniadau llywodraethu, yn enwedig o ran rhoddion a buddsoddiadau.

Roedd gan y Bwrdd lechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau perthnasol yn y Datganiadau Ariannol. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd lechyd wella ei drefniadau ar gyfer rheolaeth gyllidebol ac asedau sefydlog ymhellach

19. Ailgynlluniwyd y trefniadau Rheolaeth Gyllidebol a etifeddwyd gan yr hen sefydliadau a chawsant eu gwella, ond mae angen eu hatgyfnerthu ymhellach yn ystod 2010-11:
- mae angen pennu cyllidebau mwy hirdymor a chysylltu'r broses yn well â gweithgarwch busnes ac amcanion strategol;

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud o strwythur cyfarwyddiaeth i strwythur Sir yn 2010-11. Mae angen gwneud rhagor o waith i gytuno ar y trefniadau dirprwyo rheolaeth gyllidebol;
 - roedd rheolaethau trosglwyddiadau yn wan ac mae angen eu hatgyfnerthu;
 - mae angen i'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i sicrhau y gellir cyflawni rhaglenni gwella costau a'u bod yn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen.
- 20.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen ar asedau sefydlog sydd â Gwerth Llyfr Gros o £288 miliwn. Er nad ydym wedi nodi unrhyw wallau perthnasol yn ein harchwiliad o asedau sefydlog, rydym wedi nodi'r meysydd canlynol lle mae angen atgyfnerthu rheolaethau mewnol:
- Dilysu Asedau - nododd gwaith Archwilio Mewnol yn 2009-10 nad oedd yn bosibl dod o hyd i rai asedau a oedd wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Asedau Sefydlog y Bwrdd Iechyd. Argymhellwyd y dylid cynnal ymarfer dilysu asedau llawn.
 - Cofrestr Asedau Sefydlog - yn 2009-10, dim ond ar ddiwedd mis Medi y diweddarwyd y Gofrestr Asedau Sefydlog ar gyfer y cyfrifon chwe mis ac unwaith eto ar ddiwedd y flwyddyn yn unig. Dylid diweddarau'r Gofrestr Asedau sefydlog bob mis.
 - Cyflogau/Ailgodi Taliadau wedi'u Cyfalafu - yn 2009-10, cyfalafwyd £983,000 o gyflogau a thaliadau eraill a ailgodwyd ar gyfer ystadau a gwaith cynnal a chadw fel rhan o'r asedau o dan ychwanegiadau adeiladu. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ganddo brosesau cadarnach i ddangos p'un a yw'r costau hyn yn cyfateb i'r diffiniad o wariant cyfalaf.
- 21.** Rydym hefyd wedi adolygu gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol, y Consortiwm Archwilio Cyfalaf a'r gwasanaeth Gwrth Dwyll. Nid oes gennym unrhyw bryderon sylweddol - nodir ein canfyddiadau manwl yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009-10, ond dim ond oherwydd arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad

- 22.** Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2009-10 oherwydd arian anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol sylfaenol yn peri pryder o hyd, gyda gorwariant sylweddol yn parhau ar rai cyllidebau.
- 23.** Ar gyfer 2010-11, mae'r Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg ariannol o £32 miliwn, sydd wedi lleihau o £72 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn. Mae cyflawni'r diffyg o £32 miliwn yn dibynnu ar gynllun arbed costau gwerth £27 miliwn.

Adran 2: Rheoli Ariannol

24. Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae safonau uchel wrth reoli arian yn bwysicach nag erioed. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau archwilwyr ar drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, ac yn ystyried y canlynol:
- trefniadau cynllunio ariannol;
 - trefniadau rheoli costau a monitro'r gyllideb;
 - y cynnydd a wneir o ran y rhaglenni arbed costau, a gallu'r Bwrdd Iechyd i barhau i wario o fewn ei derfyn adnoddau.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu trefniadau rheolaeth gyllidebol a chynllunio ariannol cadarn, er bod y sefydliad yn wynebu heriau ariannol sylweddol

Mae trefniadau Cynllunio Ariannol ar waith, er bod angen iddynt fod yn fwy cynhwysol a thymor hwy wrth fynd ymlaen

25. Mae'r Adran Gyllid wedi cyflawni cryn dipyn ym mlwyddyn gyntaf y Bwrdd Iechyd. Bu dwyn ynghyd bedwar cynllun ariannol a phedwar cyfriflyfr ariannol o'r cyrff rhagflaenol yn her. Gwnaed hynny yn erbyn cefndir strwythurau corfforaethol a sirol newydd.
26. O ystyried bod y Bwrdd Iechyd yn sefydliad newydd, mae'r broses o bennu'r gyllideb hyd yma wedi'i chanoli ac wedi bod yn gynyddrannol. Wrth fynd ymlaen, bydd angen i adnoddau fod yn fwy cydnaws â'r blaenoriaethau strategol yn hytrach na phatrymau ariannol hanesyddol. Mae angen gwneud gwell cysylltiadau rhwng cyllidebau a gweithgarwch busnes. Er y gall cyllidebu sy'n seiliedig ar sero gymryd gormod o amser bob blwyddyn, dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynnal rhaglen dreigl o gyllidebu sy'n seiliedig ar sero.
27. Hyd yma pennwyd cyllidebau gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol. Rydym yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd yn sefydliad newydd ac mai dim ond yn ddiweddar y penodwyd nifer o'r staff allweddol ond, wrth fynd ymlaen bydd yn ofynnol i ymgysylltu'n llawnach â staff perthnasol er mwyn sicrhau ymrwymiad priodol i'r cyllidebau a sicrhau bod cyllidebau wedi'u pennu ar lefelau realistig.
28. Rydym wedi gweld ystod o fentrau diweddar i wella gwaith cynllunio ariannol. Mae'r tîm Cyllid yn cefnogi'r siroedd a'r adrannau eraill sy'n gyfrifol am fonitro'r gyllideb, cynllunio ariannol, meincnodi ac asesu costau gweithgarwch cleifion.
29. Mae cynllunio ariannol tymor hwy yn fater allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Yn hanesyddol bu ansicrwydd o ran cyllid GIG Cymru, nad yw wedi helpu o ran cynllunio tymor hwy. Fel y nodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu model gwasanaeth newydd a bydd cynllunio ariannol yn rhan allweddol o'r strategaeth ailgynllunio.

Mae'r gwaith o fonitro perfformiad yn erbyn cyllidebau yn gwella, ond mae angen i drefniadau sicrhau bod dirprwyo digonol

30. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, canolwyd y broses o bennu a monitro cyllidebau oherwydd aeddfedrwydd a risgiau ariannol y sefydliad newydd. Mae'r Bwrdd lechyd am ddatganoli'r trefniadau monitro a dirprwyo'r gyllideb o fewn y siroedd a'r adrannau.
31. Mae ansawdd yr adroddiadau monitro cyllideb a roddir i ddeiliaid cyllidebau yn dda, gan ddarparu ystod o wybodaeth, a chynigir cymorth pellach drwy adolygiadau misol a mwy o gefnogaeth ad hoc. Mae tîm cyllid yn helpu pob cyfarwyddiaeth i ddarparu cymorth ariannol i ddeiliaid cyllidebau. Mae'r trefniadau hyn yn newydd ac yn dechrau cael eu hymgorffori.
32. Cyflwynir adroddiadau cyllid i'r Bwrdd bob deufis, cyflwynir adroddiadau misol i'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig a chyflwynir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio.

Cyflawnodd y Bwrdd lechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2009-10, ond dim ond ar ôl cael cymorth sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn gan Lywodraeth y Cynulliad. Ceir diffyg sylfaenol a rhagwelir diffyg o £32 miliwn ar gyfer 2010-11 os cyflawnir arbedion arfaethedig o £27 miliwn, er bod y bwrdd iechyd ymhell ar ei hôl hi ar hyn o bryd

33. Fel y nodwyd yn flaenorol, cyflawnodd y Bwrdd lechyd ei dargedau ariannol statudol yn 2009-10, ond dim ond ar ôl derbyn tua £25 miliwn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad.
34. Erys diffyg sylfaenol y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae'r Bwrdd lechyd yn ymwybodol iawn o'r sefyllfa ariannol hon ac mae wedi rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £32 miliwn ar gyfer 2010-11. Fodd bynnag, mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar gyflawni £27 miliwn o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd, dim ond ychydig dros hanner yr arbedion gofynnol a gyflawnwyd. Ceir tystiolaeth bod rhai arbedion effeithlonrwydd wedi'u pennu heb gynnwys deiliaid cyllidebau yn llawn, sy'n peri risg i'r Bwrdd lechyd.
35. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod y gwendidau hyn ac wedi datblygu nifer o fentrau i gynnwys staff yn fwy wrth ddatblygu'r cynllun arbedion a meithrin gwybodaeth amdano, yn cynnwys cynnal nifer o weithdai.
36. O ran monitro'r cynllun arbedion, mae trefniadau priodol ar waith, yn cynnwys:
 - arbedion a gyflawnir gan ffrydiau gwaith, gydag Arweinydd Cyflawni ac Arweinydd Gweithredol a enwyd ar gyfer pob un;
 - grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y cynllun arbedion a Thîm Cynaliadwyedd sy'n cyfarfod yn wythnosol i fonitro'r cynllun arbedion yn fanwl;
 - cyflwyno adroddiadau wythnosol i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol ar berfformiad yn erbyn mesurau ariannol allweddol;
 - adroddiadau misol i'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig a'r Bwrdd;
 - sefydlu is-bwyllgor Cynaliadwyedd a Pherfformiad i adolygu cynnydd;
 - dogfen 'Trefniadau Llywodraethu Rhaglen' ddynodedig sy'n egluro rolau a chyfrifoldebau.

Adran 3: Llywodraethu ac atebolrwydd

37. Mae safonau uchel o lywodraethu ac atebolrwydd yn ofynion hanfodol wrth ddangos y gwarchodir arian cyhoeddus yn effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae angen i fyrddau cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt 'fframwaith sicrwydd' effeithiol ar waith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a chraffu ar berfformiad. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi fy marn ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd yn y meysydd canlynol:
- pennu cyfeiriad strategol clir;
 - cael strwythur sefydliadol sy'n cefnogi cyflawni amcanion strategol mewn modd effeithiol;
 - effeithiolrwydd y bwrdd a'r cynlluniau dirprwyo cysylltiedig;
 - nodi a rheoli risg;
 - yr amgylchedd rheolaeth fewnol cyffredinol;
 - trefniadau llywodraethu gwybodaeth;
 - monitro ac adolygu perfformiad.

Er bod trefniadau llywodraethu yn gadarn ar y cyfan, mae angen gwneud gwaith pellach i atgyfnerthu trefniadau mewn rhai meysydd pwysig megis rheoli risg a llywodraethu gwybodaeth

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfeiriad strategol clir ac mae'n gwneud cynnydd wrth ddilyn proses gytûn a fydd yn datblygu model clinigol a gwasanaeth newydd. Bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar ystod o ffactorau megis ymgysylltu ac atebolrwydd effeithiol, adleoli staff a sicrhau adnoddau digonol i greu atebion newydd o ran ystadau

38. Ym mis Awst 2010, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun pum mlynedd sy'n seiliedig ar egwyddorion, gweledigaeth, nodau ac amcanion ac sy'n cynnwys cyfres o addewidion i boblogaeth Hywel Dda. Mae'n nodi'r heriau a'r anghenion iechyd a wynebir gan y gymuned, yr achos dros newid a gweledigaeth o sut y dylid darparu gofal iechyd yn y dyfodol sy'n seiliedig ar hybu iechyd, annibyniaeth, rhyngddibyniaeth a hunanofal a chyda gwasanaethau a bersonolwyd, sy'n deg, yn realistig, yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac am ddim yn y man lle bo'u hangen. Anfonwyd y Cynllun drafft at ystod eang o randdeiliaid a derbyniodd gryn dipyn o gefnogaeth.
39. Mae'r cynllun yn pwysleisio newid o ofal aciwt i ofal yn y gymuned a thuag at fesurau atal a hunanofal yn ogystal â'r angen i wneud mwy gyda llai o adnoddau a symleiddio mynediad at wasanaethau. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fel thema amlwg. Mae'n egluro'r broses o ymgysylltu a chlinigwyr a'u cynnwys drwy weithdai i ddatblygu'r strategaeth a datblygu partneriaethau cadarnach.

40. Nodir amcanion a blaenoriaethau presennol y Bwrdd Iechyd yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol a'r Cynlluniau Ariannol ategol. Bwriad gwreiddiol y Bwrdd Iechyd oedd trosi'r Cynllun pum mlynedd yn strategaeth weithredol ac ariannol fanylach ond, wedi ystyriaeth bellach, penderfynodd ddilyn 'trywydd' at y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys pedwar cam sydd â'r nod o ddatblygu strategaeth a model gwasanaethau clinigol erbyn canol 2011. Caiff camau'r trywydd hwn eu llywio gan hanfodion gwasanaeth ac ariannol allanol a mewnlod drwy ystod o strategaethau eraill yn cynnwys ymgynghori â chlinigwyr a rhanddeiliaid.
41. Dechreuodd y broses o ddatblygu'r trywydd gyda chyfres o weithdai yn cynnwys ystod o randdeiliaid i helpu i lywio'r cyfeiriad teithio. Sefydlwyd saith 'Melin Draffod' glinigol i ymgysylltu â chlinigwyr. Ar gyfer y meysydd clinigol a ddewiswyd, cyflwynir yr holl ffactorau galw a chyfyngiadau allweddol megis diffyg ariannol a diffyg sgiliau sy'n wynebu eu gwasanaeth i glinigwyr. Gofynnir i glinigwyr archwilio eu gwasanaeth presennol ac ystyried pa fath o wasanaeth y gellid ei ddarparu yn y dyfodol. Wrth wneud hynny, y gobaith yw nodi gwasanaeth sy'n darparu ansawdd, diogelwch a gwerth am arian, gan felly sefydlu glasbrint ar gyfer newid a gefnogir gan bawb. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried pa gamau i'w cymryd os nad yw'r dull hwn o weithredu yn sicrhau canlyniadau ymarferol.
42. Bwriedir i strwythurau'r Bwrdd Iechyd sy'n seiliedig ar sir ac ardal fod yn gonglfeini ar gyfer cynllunio a chyflawni model newydd o wasanaethau cymunedol. Cynlluniwyd y strwythur i sicrhau dilyniant o ran gweithio gyda phartneriaid i gyflawni a datblygu'r Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, yn enwedig drwy atgyfnerthu systemau gweithio mewn partneriaeth. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg o gydweithio da a seiliau dull strategol o integreiddio gwasanaethau iechyd â gofal cymdeithasol yn well. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Partneriaethau Strategol i gefnogi agenda uchelgeisiol o waith integredig gwell er mwyn cyflawni cyfres o ganlyniadau arfaethedig.
43. Ochr yn ochr â datblygu model clinigol a model gwasanaeth, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried atebion cynllunio ystad i lunio cynllun amlinellol ar gyfer tair i bum mlynedd a fydd yn nodi'r meini prawf a'r blaenoriaethau ar gyfer cynigion cyfalaf. Fel rhan o'r broses hon, bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried y dulliau mwyaf priodol o ymgynghori ar ei gynlluniau manwl a'u cyfleu a bod yn barod i weithredu dewisiadau amgen os nad ydynt yn sicrhau'r holl gefnogaeth angenrheidiol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu strwythur sefydliadol matrices, ond nid yw'r strwythur hwn wedi'i sefydlu'n llawn nad yn gwbl weithredol eto

44. Mae gan y Bwrdd Iechyd tua 9,000 aelod o staff ac mae'n gweithredu ar draws nifer o leoliadau, sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol eang. Felly yn y bôn bydd bob amser yn anodd datblygu strwythur sefydliadol newydd.
45. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu strwythur matrices sy'n cynnwys model tair sir a ategir gan ardaloedd a naw rhaglen glinigol ar ben hynny a gefnogir gan strwythur corfforaethol. Fel y nodwyd yn flaenorol, bwriedir i'r strwythur sy'n seiliedig ar siroedd ac ardaloedd gynnwys y conglfeini ar gyfer cynllunio a

chyflawni model gwasanaeth newydd. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran gweithredu'r strwythur, er ei fod wedi cymryd cryn amser ac adnoddau sylweddol i lenwi'r strwythur. Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg fod y strwythur matrices yn gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd a bod integreiddio da ar draws gwasanaethau aciwt, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau cymunedol a gofal sylfaenol.

46. Wrth fynd ymlaen mae angen sicrhau nad yw'r siroedd a'r cynlluniau ategol yn dychwelyd i 'feddylfryd seilo' yn hytrach na gweithio'n gorfforaethol i gyflawni amcanion ar draws y Bwrdd Iechyd.
47. Ar lefelau is ceir diffyg eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau. Nid oes gan rai staff rheng flaen ddealltwriaeth glir o hyd o sut mae'r strwythur yn gweithredu, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn newydd o hyd ac mae'n gwneud popeth o fewn ei allu i ffurfioli rolau a'u cyfleu i staff.
48. Ar hyn o bryd nid yw'n glir a oes gan y strwythur sirol ddigon o allu ac adnoddau i gyflawni ei amcanion. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i adolygu'r mater hwn ac ystyried a yw wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng y canol corfforaethol a'r siroedd.

Mae Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn effeithiol ac mae wedi sefydlu fframwaith llywodraethu cadarn ar gyfer y sefydliad

49. Mae gan y Bwrdd Iechyd Fwrdd effeithiol o ran gwaith tîm, gallu a chymhwysedd. Mae'r Bwrdd yn gweithio'n dda ar lefel strategol gan ddefnyddio ystod sgiliau'r swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol.
50. Mae'r Bwrdd wedi nodi'r fframwaith llywodraethu a'r cynllun dirprwyo ar gyfer y sefydliad sy'n taro cydbwysedd addas rhwng cyllid, diogelwch a llywodraethu. Cefnogir y Bwrdd gan nifer o bwyllgorau ac is-bwyllgorau ac iddynt rolau a chyfrifoldebau a ddiffiniwyd yn glir. Y pwyllgorau allweddol sy'n cefnogi'r Bwrdd yw:
 - y Pwyllgor Archwilio - yn gyfrifol am adolygu'r broses o sefydlu a chynnal system rheolaeth fewnol a rheoli risg effeithiol;
 - y Pwyllgor Llywodraethu Integredig - i roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch gwasanaethau gofal iechyd a rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch - yn cyflawni cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd.
51. Mae'r Pwyllgorau ategol hyn yn canolbwyntio fwyfwy ar y materion priodol ac yn darparu fforwm priodol i drafod a gwneud penderfyniadau mewn modd aeddfed, agored a chadarn.

Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith rheoli risg, ond nid yw'r trefniadau hyn wedi'u hymgorffori eto, ac mae angen cyflawni cryn dipyn o waith cyn iddynt ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol

52. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod gwendidau yn ei drefniadau rheoli risg ac mae wedi diwygio ei fframwaith rheoli risg dros y misoedd diwethaf.

53. Cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth a pholisi rheoli risg. Fel datganiad o fwriad, mae'r polisi yn ymddangos yn gadarn ac yn nodi amcanion, egwyddorion a chyfrifoldebau. Yn fwy diweddar, datblygodd y Bwrdd lechyd weithdrefn rheoli risg sy'n seiliedig ar egwyddorion arfer gorau, ac mae'n hawdd ei darllen ac yn ymarferol. Mae'r Bwrdd lechyd yn ystyried mai'r weithdrefn yw'r man cychwyn ar gyfer gwella prosesau rheoli risg.
54. Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu strwythur rheoli gweithredol a gweithredu sy'n adlewyrchu'r meysydd atebolrwydd gwahanol lle wyneb ir risg. Mae nifer o bwyllgorau'r Bwrdd lechyd yn gyfrifol am oruchwylio prosesau rheoli risg yn y meysydd hyn.
55. Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu Tîm Risg/Sicrwydd o fewn y gyfarwyddiaeth gorfforaethol, sy'n gyfrifol am gydgyssylltu fframwaith risg a sicrwydd corfforaethol y Bwrdd lechyd, yn cynnwys rheoli'r gofrestr risg gorfforaethol. Bydd y tîm risg yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Ansawdd a Diogelwch ar wahân, sydd â rheolwyr risg Ansawdd a Diogelwch yn y siroedd i sicrhau y caiff risgiau clinigol eu nodi a'u rheoli yn briodol.
56. Ceir dull tair haen o'r bôn i'r brig o nodi risgiau a'r gofrestr risg, o lefel tîm, i fyny i lefel adrannol, ac yna i lefel sirol.
57. Fodd bynnag, er bod y seiliau ar gyfer datblygu'r trefniadau rheoli risg wedi'u rhoi ar waith bellach, mae'r prosesau yn gymharol newydd, ac mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i ymgorffori'r trefniadau hyn i sicrhau y nodir y risgiau, y gweithredir arnynt ac y cânt eu rheoli'n briodol.
58. Er i'r proffil gael ei godi gyda rheoli risg bellach yn ymddangos ar agendâu cyfarfodydd allweddol, nid yw'r broses ar gyfer nodi a chategoreiddio risgiau mewn cofrestrau risg wedi'i mireinio'n ddigonol eto. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod nad yw'r broses o nodi risg o fewn y cofrestrau risgiau ar lefel gorfforaethol, adrannol a sirol wedi aeddfedu eto, ac y bydd y gwaith o gyflawni'r rhaglen ofynnol o addysg i newid diwylliant ac arfer, sydd wedi dechrau yn ddiweddar, yn heriol. Ceir sawl enghraifft yn y paragraffau isod.
59. Mae pob Pwyllgor Llywodraethu Integredig yn cael y gofrestr risg gorfforaethol ac fe'i rhoddir i'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith y flwyddyn. Ar hyn o bryd nid yw'r rhestr hir o risgiau yn adlewyrchu'r prif risgiau corfforaethol ar gyfer y Bwrdd lechyd yn ddigonol.
60. Rhoddwyd y dasg o lunio cofrestr risg sirol i'r siroedd, ond prin fu eu cynnydd hyd yma. Lle y cawsant eu datblygu, er enghraifft yng Ngheredigion, nid ymddengys fod y pedair prif risg a nodwyd yn adlewyrchu'r risgiau mwyaf sy'n wynebu'r sir.
61. Yn ogystal, ar sail adolygiad o'r cofrestrau risg corfforaethol, adrannol a sirol, rydym yn pryderu y gall y ffordd y gweithredir arwain at ddryswch o ran pwy sy'n gyfrifol am nodi a rheoli risgiau.
62. Er bod gennym nifer o bryderon ynghylch y trefniadau rheoli risg, rydym o'r farn bod enghreifftiau o roi systemau ar waith i ddysgu gwersi o ddigwyddiadau. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiadau dysgu sefydliadol a sefydlir ym mhob sir gyda'r nod o ddysgu gwersi. Ym mhob sir byddant yn cynnwys prif feddyg, rheolwr hawliadau, risg, archwilio clinigol, rheolwr gwella ansawdd, rheolwr cwynion, pennaeth nyrsio, prif fferylllydd a therapydd.

63. At hynny, ystyrir bod y dull o fonitro ac archwilio marwolaethau yn welliant sylweddol, nid yn unig o fewn y Bwrdd Iechyd, ond gan Lywodraeth y Cynulliad hefyd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd y bu nifer o fanteision i hyn, yn enwedig lleihau ei RAMI (Mynegai Marwolaethau wedi'i Addasu yn ôl Risg) ond hefyd well ymgysylltu clinigol, codio a dogfennu nodiadau achosion.

Mae systemau rheolaeth fewnol yn gadarn ar y cyfan, er bod gwasanaethau archwilio clinigol wedi cydnabod cyfyngiadau o ran adnoddau

64. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol, a roddwyd i'r staff.
65. Mae gan y Bwrdd Iechyd Wasanaethau Archwilio Mewnol ac Archwilio Cyfalaf a Mentrau Cyllid Preifat effeithiol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cyrraedd eu safonau proffesiynol ond, yn y dyfodol, dylent ganolbwyntio mwy ar y risgiau a'r blaenoriaethau corfforaethol pwysicach i gefnogi gwelliant.
66. O ran rheolaeth fewnol, y ddau bwyllgor allweddol yw'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyllgorau hyn yn datblygu ac yn darparu fforwm effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau agored a thryloyw.
67. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu ei wasanaeth archwilio clinigol oherwydd cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau a galw cynyddol. Er bod y cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau wedi deillio'n bennaf o gyfnod mamolaeth, ceir twf nad yw'n gynaliadwy yn y galw am archwiliadau clinigol. O ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd, mewn partneriaeth â'r gwasanaeth archwilio clinigol, wedi blaenoriaethu'r rhaglen archwilio i gyflawni meysydd â blaenoriaeth uwch.
68. Caiff y Datganiad am Reolaeth Fewnol ei baratoi'n flynyddol yn unol â gofynion Llywodraeth y Cynulliad ac roedd yn adlewyrchiad teg o'r fframwaith rheolaeth fewnol a gweithredu'r amgylchedd rheoli drwy gydol y flwyddyn. Gallai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio'r Datganiad am Reolaeth Fewnol mwy fel adnodd sicrwydd.

Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar y cyfan ar gyfer Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, ond gallai adnoddau cyfyngedig arafu cynnydd. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau llywodraethu gwybodaeth gwan sy'n peri risg sylweddol

69. Mae'r Strategaeth Wybodeg yn adlewyrchu cynllun pum mlynedd y Bwrdd Iechyd a rhaglen Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Wrth fynd ymlaen, mae gan y Strategaeth seiliau cadarn ac mae ganddi gefnogaeth staff TG a staff meddygol y Bwrdd Iechyd.
70. Mae'r trefniadau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer yr agweddau technegol ar Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg wedi'u diffinio'n dda ac yn weithredol. Mae'r Tîm Rheoli ym maes Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn cefnogi'r Grŵp Llywio Gwybodeg sy'n cynnwys aelodau o staff hyddysg a phrofiadol o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Rheolir risgiau gan y swyddogion Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg, ond prin yw'r ymgysylltu o ran gwaith monitro ffurfiol rheolaidd ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol.

71. Mae'r cynlluniau cyflenwi i gefnogi rhaglen Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn llai datblygedig. Er bod cynlluniau yn cynnwys darlun cyffredinol cywir o gyflenwi, ceir llai o fanylion am adnoddau a gallu. Fodd bynnag, mae'n glir nad oes digon o allu i gyflawni pob elfen o'r cynllun, a allai effeithio ar gynnydd. Cydnabyddir y diffyg hwn gan dîm Rheoli'r gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg.
72. Ar y cyfan, mae'r gallu i gyflawni'r cynllun Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg wedi'i leihau am i'r Bwrdd lechyd fod yn araf yn llenwi swyddi; nid yw'r ystod lawn o staff mewn swydd eto. Mae prif seilwaith Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg y Bwrdd lechyd yn addas at y diben gyda chynlluniau adfer trychinebau lleol ar waith. Ar hyn o bryd mae arian Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg ar gael gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, er bod pryderon bellach y bydd y ffrwd ariannu hwn yn destun toriadau. Gyda'r rhaglen gyflenwi Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg gyfan wedi'i hetifeddu o'r rhaglen genedlaethol, byddai unrhyw leihad mewn arian yn peri risg sylweddol i gyflenwi, gan mai prin yw'r cymorth ariannol lleol sydd ar gael ar gyfer prosiectau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg ar hyn o bryd.
73. Nid yw'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth wedi'u datblygu'n dda. Caiff materion gwybodaeth eu trafod ar lafar ar lefel uwch swyddogion, er mai prin yw'r dystiolaeth i ddangos ymrwymiad i wella materion gwybodaeth ac ymddengys eu bod yn flaenoriaeth isel.
74. Nid yw'r Bwrdd lechyd yn aeddfed eto o ran deall neu reoli gwybodaeth. Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol gwahanol yn gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth a Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Er ei bod yn arfer da i wahanu polisi a gweithrediadau, mae hefyd wedi arwain at reoli gwybodaeth electronig a gwybodaeth bapur yn weithredol o dan gyfarwyddiaethau gwahanol. Mae trefniadau o'r fath yn achosi dryswch o ran cyfrifoldebau, gan arwain at ddiffyg eglurder a pherchenogaeth.
75. Yn debyg i'r hyn a wneir mewn perthynas â strwythurau staff technoleg, bu'r Bwrdd lechyd yn araf i lenwi swyddi gwybodaeth. Mae'r gallu cyffredinol i gyflawni wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf ac nid oes ystod lawn o staff mewn swydd eto.
76. Nid yw'r polisi Diogelwch TG yn gyson ag arfer da eto, ac nid yw wedi'i gymeradwyo na'i gymhwyso gan y sefydliad cyfan. Nid oes Swyddog Diogelwch TG ar hyn o bryd ac nid yw'r swydd ddisgrifiad yn cwmparu'r agenda wybodaeth ehangach.
77. Er bod cofrestr risg y Bwrdd lechyd yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli gwybodaeth, mae angen mynd ati i liniaru risg mewn ffordd lawer mwy gweithredol.

Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn gadarn ac yn gyfannol ac, er bod gwybodaeth am berfformiad yn gwella, mae'r ffaith nad oes system sicrwydd data gynhwysfawr yn peri risg

78. Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu fframwaith rheoli perfformiad integredig. Ymddengys fod y fframwaith yn gadarn ac yn gynhwysol, gan gwmpasu pob maes busnes, yn cynnwys cyflenwi gweithredol, cyllid a risg; diogelwch ac ansawdd; gweithlu; gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned.
79. Mae'r Bwrdd lechyd wedi datganoli cyfrifoldeb o swyddogion gweithredol i lawr i gyfarwyddwyr sirol, gyda'r siroedd yn gyfrifol am gyflawni amcanion allweddol. Gweithredir trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer y siroedd drwy gyfres o adolygiadau perfformiad wedi'u cynllunio a gynhelir yn fisol ac yn chwarterol drwy gyfarfodydd 'cyfrif stoc'.
80. Mae'r arfer hwn yn darparu strwythur rheolaidd a ffurfiol ar gyfer defnyddio gwybodaeth am berfformiad i fonitro cyflawni amcanion a nodi meysydd ar gyfer gweithredu pellach. Mae'r broses yn seiliedig ar egwyddor ymreolaeth haeddiannol, fel bod meysydd sy'n perfformio'n dda yn ennill yr hawl i beidio bod yn destun craffu mor ddwys yn y dyfodol. Mae pob ymarfer 'cyfrif stoc' yn arwain at lythyr adborth i bob cyfarwyddwr sirol yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol i wella perfformiad. Trafodir y cynlluniau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiadau a'r llythyrau hyn yn y cyfarfodydd adolygu nesaf.
81. Dengys y gwaith o arsylwi'r broses hon adeg archwiliad ac adolygu dogfennau allweddol fod y broses yn gadarn ond hefyd yn gefnogol. Er i nifer o feysydd ar gyfer gwella gael eu nodi, golyga'r agenda perfformiad heriol y bydd angen i'r Bwrdd lechyd sicrhau y cynhelir y momentwm a bod y broses yn parhau i gefnogi a chynnal gwelliant.
82. Yn fuan bydd fframwaith sicrwydd sef 'Foundations 4 Change' yn monitro perfformiad y siroedd. Bydd y fframwaith hwn yn broses flynyddol lle asesir timau sirol yn erbyn tair thema canlyniadau, cymwyseddau a llywodraethu. Ystyrir bod y themâu hyn yn sylfaenol o ran cyflawni'r nodau ac amcanion a nodwyd yn y cynllun pum mlynedd. Ymddengys fod y broses yn darparu dull cadarn a phriodol o sicrhau y gweithredir strategaeth y Bwrdd lechyd drwy ddwyn y timau sirol i gyfrif. Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal i sicrhau y gall y siroedd ddibynnu ar y lefel briodol o gymorth corfforaethol i'w helpu i lwyddo.
83. Mae angen sicrhau mwy o dryloywder o ran y broses o ddwyn y Cyfarwyddwyr Gweithredol i gyfrif am eu cyfraniad at gyflawni'r nodau ac amcanion. Mae hyn yn bwysig gan fod y Bwrdd lechyd yn wynebu heriau gwasanaeth a heriau ariannol sylweddol a bydd perchenogaeth a rennir yn hanfodol i lwyddiant.
84. Mae gwybodaeth i ategu'r fframwaith rheoli perfformiad yn datblygu ac yn cael ei mireinio'n barhaus. Ond mae'r Bwrdd lechyd wedi cydnabod bod angen iddo fod yn fwy soffistigedig, yn enwedig yn fwy amserol, yn fwy cysylltiedig â chostau cyfleoedd a buddiannau ariannol ac y cesglir y wybodaeth gywir. Gellid gwella'r adroddiadau ar berfformiad drwy gynnwys mwy o naratif i egluro perfformiad, darparu gwybodaeth gymharol a manylion y camau gweithredu a gymerir.

85. Caiff gwybodaeth am berfformiad ei chyflwyno fel mater o drefn i'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig ac i bob cyfarfod Bwrdd. Gellid gwella adroddiadau'r Bwrdd drwy lunio crynodeb lefel uchel sy'n adlewyrchu perfformiad integredig gan gwmpasu ansawdd a diogelwch, effeithlonrwydd gweithredol, y defnydd o adnoddau a phrofiadau cleifion.
86. Er bod rhai enghreifftiau lle mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud gwaith i ddangos cywirdeb data, er enghraifft, dangosyddion codio clinigol ac amser atgyfeirio i gael triniaeth, rydym o'r farn y gallai'r systemau sicrwydd data fod yn fwy cynhwysfawr. Er bod natur ymarferol system yn creu heriau, rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y wybodaeth a ddefnyddir i lywio trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu trefniadau priodol er mwyn hyrwyddo a sicrhau gonestrwydd a phriodoldeb wrth iddo wneud ei waith

87. Mae trefniadau, polisïau a gweithdrefnau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â safonau ymddygiad sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer chwythu'r chwiban, datgelu buddiannau a datgelu rhoddion a lletygarwch.
88. Mae trefniadau Gwrth Dwyll wedi datblygu yn ystod y flwyddyn, gyda swyddog Gwrth Dwyll penodol wedi'i benodi. Mae polisïau priodol ar waith a gwnaed cynnydd da o ran codi ymwybyddiaeth sy'n datblygu ymhellach gyda rhybuddion a chylchlythyrau.

Adran 4: Rheoli adnoddau

89. Mae prosesau rheoli cadarn mewn perthynas ag adnoddau allweddol, megis pobl ac asedau, yn rhan hanfodol o'r gwaith o sicrhau gwerth da am arian. Mae angen i gynlluniau datblygu gwasanaethau ac arbed costau gael eu hategu gan waith effeithiol o ran cynllunio'r gweithlu, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn crynhoi fy nghanfyddiadau yn y meysydd canlynol:
- trefniadau cynllunio'r gweithlu;
 - caffael;
 - rheoli asedau;
 - gweithio gyda sefydliadau partner;
 - ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau.

Er y gwnaed cynnydd sylweddol, mae angen cyflawni gwaith pellach i atgyfnerthu 'galluogwyr' pwysig sy'n gallu bod o gymorth o ran gwneud defnydd mwy effeithiol, effeithlon a darbodus o adnoddau

Mae'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio'r gweithlu yn datblygu o hyd ac mae angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd

90. Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun gweithlu manwl dyddiedig Mawrth 2010, sy'n cynnwys data ar ddemograffeg gweithlu a phryderon hysbys. Er mwyn cynorthwyo'r broses o ddatblygu strategaeth gwasanaeth fanwl, mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu melinau trafod gyda mewnbwn clinigol cryf i ystyried llwybrau gofal mewn ystod o arbenigeddau ac ardaloedd a fydd yn effeithio ar ofynion y gweithlu.
91. Mae staff adnoddau dynol yn bwriadu datblygu cynllun gweithlu diwygiedig erbyn 17 Rhagfyr 2010. Maent yn datblygu cynlluniau gyda chymorth yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd sy'n seiliedig ar dri senario. Ceir tystiolaeth o rywfaint o waith cynllunio'r gweithlu ar y cyd ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ond gellid gwella hyn ymhellach.
92. Yn ddiweddar sefydlodd y Bwrdd Iechyd Is-bwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o'r Pwyllgor Llywodraethu Integredig. Mae'r grŵp hwn wedi datblygu cynllun gweithredu strategol ac yn monitro'r broses o gyflawni camau gweithredu sy'n ymwneud â'r gweithlu a datblygu sefydliadol. Mae hefyd yn gyfrifol am ddiweddarau'r gofrestr risg ar gyfer y gweithlu a datblygu sefydliadol. Mae tîm data adnoddau dynol y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno adroddiadau ar fatricsau gweithlu a gaiff eu monitro yn y cyfarfodydd.
93. Mae camau priodol yn cael eu cymryd i wella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd y gweithlu a lleihau costau sefydlog ac amrywiol. Yn benodol, mae'r adran adnoddau dynol wedi cyflwyno hyfforddiant ym mhhecyn cymorth absenoldeb

oherwydd salwch y GIG. Gall timau gweithlu sirol roi hyfforddiant a chymorth ychwanegol i reolwyr. Mae staff adnoddau dynol yn cyflawni rhaglen o archwiliadau o ardaloedd sydd â lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch. Bu'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd salwch yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd.

94. Mae'r Bwrdd lechyd wedi sefydlu grwpiau cyflog amrywiol i fonitro'r defnydd o oramser, staff cronfa, staff locwm a staff asiantaeth yn ofalus a cheisio cyflawni'r targed arbedion o £5 miliwn. Bydd y system e-restru newydd a gyflwynir gan y Bwrdd lechyd yn galluogi rheolwyr wardiau i graffu ar staff yn well ac yn eu helpu i wybod a oes angen iddynt lenwi unrhyw swyddi gwag ar y funud olaf. Eir i'r afael â phroblemau tymor hwy drwy recriwtio meddygon adrannau damweiniau ac achosion brys newydd yn Ysbyty Llwyn Helyg ac ailgynllunio gwasanaethau e.e. gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion y tu allan i oriau. Cyflwynir data ar y defnydd o oramser, staff cronfa, staff asiantaeth a staff locwm bob mis i'r Is-bwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, er nid ar ffurf graffigol na thrwy wneud unrhyw gymariaethau â blynyddoedd blaenorol i helpu i fonitro tueddiadau.
95. Mae'r Bwrdd lechyd yn datblygu proses syml o gynnal arfarniadau a chynlluniau datblygu personol. Mae gan y Bwrdd lechyd swyddogaeth hyfforddi sefydledig ac mae'n darparu ei hyfforddiant gorfodol ei hun i staff. Fel llawer o gyrrff eraill y GIG, mae ganddynt broblemau o ran cael staff i fynd i'r holl hyfforddiant gorfodol; mae'r Grŵp Hyfforddiant Gorfodol a Hyfforddiant Cleifion yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddatblygu dull o ymdrin â hyfforddiant sy'n seiliedig ar risg. Maent hefyd wedi datblygu fframwaith ar gyfer hyfforddiant sydd â'r nod o sicrhau y darperir gofal yn ddiogel ac yn effeithiol gan weithwyr cymorth. Bydd datblygu hyfforddiant ar gyfer cynorthwyrwyr gofal iechyd yn helpu'r Bwrdd lechyd i gyflawni targed y Fframwaith Gweithredu Blynyddol o leihau nifer y staff ym mand 5 ac uwch gan 3 y cant a chynyddu nifer y staff ym mandiau 1-4.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu dull cadarn o reoli ei sail asedau

96. Mae gan y Bwrdd lechyd strategaeth ystadau glir sy'n gyson â dogfennau strategol eraill a threfniadau rheoli risg. Ategir y strategaeth gan systemau ystadau cadarn sy'n rhoi darlun clir i'r Bwrdd lechyd o ba asedau sydd ganddo, ynghyd â chyflwr yr asedau hynny. Ceir tystiolaeth bod y tîm Ystadau yn cefnogi Timau Sirol ac adrannau eraill ymhob rhan o'r Bwrdd lechyd.
97. Mae'r Bwrdd lechyd yn berchen ar dir ac adeiladau sydd â gwerth llyfr net o tua £200 miliwn. Mae gwaith cynllunio strategol a'r rhaglen gyfalaf wedi'u rheoli'n dda gan gynnwys swyddogion perthnasol o bob rhan o'r sefydliad. Ceir lefel uchel o ôl-groniadau o waith cynnal a chadw, gyda £30 miliwn wedi'i ddsbarthu'n elfen sy'n cynrychioli risg sylweddol neu risg uchel. Mae gan y Bwrdd lechyd tua £7 miliwn o adnoddau i fynd i'r afael â risgiau sylweddol dros y ddwy flynedd nesaf, yn ogystal â mynd i'r afael â rhai o'r meysydd risg uwch.
98. Mae'r Bwrdd lechyd hefyd yn cydnabod y gellir gwneud mwy i asesu perfformiad ei asedau a meincnodi ei berfformiad ymhellach â sefydliadau eraill. Er bod y Bwrdd lechyd yn gwneud cynnydd o ran gwella ansawdd a chywirdeb ei

wybodaeth, mae wedi'i llesteirio gan y data cenedlaethol cyfyngedig, y mae rhywfaint ohono'n ymddangos fel ei fod yn anghywir. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydnabod bod angen i achosion busnes fod yn gadarnach, yn enwedig o ran cynaliadwyedd.

99. Gan edrych i'r dyfodol, unwaith y bydd model darparu gwasanaethau tymor hwy y Bwrdd Iechyd ar waith, bydd angen diweddaru'r strategaeth ystadau. Pryder allweddol yw y bydd y gwaith o foderneiddio gwasanaethau yn galw am fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, a fydd yn dibynnu ar gael arian gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mae trefniadau caffael yn datblygu'n dda, er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach

100. Mae trefniadau caffael yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan. Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael gyfoes sy'n cwmpasu 2009-2013 a sefydlwyd llinellau adrodd clir ar gyfer caffael. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes canllawiau/llawlyfr caffael manwl ar gyfer staff caffael i gefnogi'r gwaith o gyflawni gweithrediadau caffael o ddydd i ddydd ac nid oes unrhyw gynllun gweithredu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth.
101. Mae contractau cenedlaethol, contractau fframwaith a chontractau yn ôl y gofyn yn sefydledig o fewn y Bwrdd Iechyd, yn enwedig ym maes gofal eilaidd. At hynny, gwneir defnydd helaeth o wefan PrynwchiGymru Gwerth Cymru ac yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau defnyddio system dendro electronig.
102. Ni chynhaliwyd unrhyw waith cynllunio gweithlu ar gyfer yr Adran Gaffael i sicrhau bod nifer y staff sydd mewn swydd a'u cymysgedd sgiliau yn addas at y diben. Yn ystod 2011, caiff y swyddogaeth gaffael ei chanoli o dan y sefydliad Gwasanaethau a Rennir a bydd angen datblygu camau cynllunio'r gweithlu, ynghyd â'r gwelliannau eraill a nodir isod.
103. Nid oes unrhyw gynllun hyfforddi ffurfiol ar gyfer staff caffael ar hyn o bryd ac mae'r gyllideb hyfforddiant yn gyfyngedig. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r adran gaffael wedi gwneud peth gwaith i sicrhau hyfforddiant ad hoc ar gyfer staff.
104. Mae'r Adran Gaffael wedi cyflawni rhai arbedion ariannol sylweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Wrth fynd ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo wneud mwy i adolygu prosesau caffael ym maes gofal sylfaenol ac mewn gwasanaethau nad ydynt yn aciwt megis gofal iechyd parhaus.
105. Yn ddiweddar mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Nyrs Caffael Glinigol i fod yn ddolen gswllt rhwng clinigwyr a'r Adran Gaffael a sicrhau y codir yr angen am brosesau caffael effeithiol gyda chlinigwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod gormod o ddewis ar gael i glinigwyr o hyd o fewn y contractau presennol a bod angen lleihau hyn er mwyn safoni eitemau clinigol a sicrhau arbedion pellach.
106. Yn olaf, nid yw penderfyniadau caffael yn ystyried materion cynaliadwyedd fel mater o drefn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r diffyg hwn ac mae wrthi'n atgyfnerthu trefniadau.

Mae'r broses o sefydlu trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn mynd rhagddi, ond mae'r Bwrdd lechyd yn wynebu heriau sylweddol o hyd i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel y bwriedir

- 107.** Mae'r Bwrdd lechyd yn dangos ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth drwy ddatblygu dull newydd o wella ei ansawdd a'i effeithiolrwydd. Yn benodol, drwy wella cyfathrebu rhwng partneriaid ac adolygu trefniadau cydweithio presennol, er mwyn datblygu cysylltiadau gwaith mwy realistig, ffurfiol ac atebol. Mae'r Bwrdd lechyd o'r farn bod gweithio mewn partneriaeth yn ffactor pwysig sy'n sbarduno newid, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar wasanaethau drwy ddarparu dulliau neu ffynonellau darparu gwasanaethau amgen - yn enwedig pan fo arian yn brin.
- 108.** Er nad oes dogfen strategol gyffredinol ar gyfer gwaith partneriaeth, mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu ymgorffori ethos cydweithio drwy'r sefydliad, mewn ymdrech i rannu adnoddau, symleiddio prosesau a gwella ansawdd gwasanaethau. Felly, crëwyd swydd arbenigol Cyfarwyddwr Partneriaethau Strategol, y tybir ei bod yn unigryw yng Nghymru, i ymgymryd yn benodol â'r gwaith o nodi a datblygu, drwy gyd-drafodaethau, gyfleoedd i gydweithio er mwyn cefnogi gwasanaethau iechyd, neu ddarparu dewis amgen pryd bynnag y bo'n bosibl.
- 109.** Er bod nifer o brosiectau ond megis dechrau o hyd, ceir enghreifftiau eisoes lle mae cyd-drafodaethau agored ac uniongyrchol yn digwydd i sefydlu cysylltiadau gwaith cadarnach â Grŵp Llywio Cydgynllunio'r Trydydd Sector. Mae'r Bwrdd lechyd o'r farn bod y sector gwirfoddol yn ffynhonnell ddibynadwy o ddarparu gofal lefel isel.
- 110.** Mae rhwydweithiau partneriaeth sefydledig, megis y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a grwpiau Partneriaethau Strategol ategol, yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y datblygiadau newydd hyn. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cynnal cysylltiadau gwaith agos â'r rhwydweithiau hyn i helpu i integreiddio gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cymunedau.
- 111.** Yn ogystal, mae'r Bwrdd lechyd, ynghyd â'r tri awdurdod lleol, wedi dyrannu adnoddau i gydariannu uwch swyddi i helpu i sicrhau cynnydd arferion gwaith integredig ar lefel strategol - gyda chydbenodiad Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Cyngor Sir Penfro - ac, ar lefel fwy gweithredol, Bennaeth Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd, mae'r trefniadau rheoli llinell ar gyfer gwasanaethau cymunedol presennol cytundeb Adran 33 yn cael eu ffurfioli er mwyn gwneud y gwasanaethau'n fwy effeithlon, cadarn ac atebol er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gofal Sylfaenol. Mae'r gwaith o benodi rheolwyr a gydariennir yn mynd rhagddi, sy'n gam allweddol ar y broses o sefydlu trefniadau gweithio integredig effeithiol.
- 112.** Ymddengys fod y rhan fwyaf o bartneriaid allanol yn fodlon gweithio'n agosach â'r Bwrdd lechyd. Fodd bynnag, erys heriau sylweddol i oresgyn yr amrywiaeth o ran eu diwylliannau, trefniadau llywodraethu, atebolrwydd, adnoddau a gallu partneriaid fel bod modd, yn y pen draw, ddarparu dewisiadau gwaith amgen ac atebion ymarferol.

113. Yn ddiau mae'r Bwrdd lechyd yn gosod y sylfeini ar gyfer gwella ansawdd ei drefniadau cydweithio â phartneriaid. Fodd bynnag, rhaid i drefniadau rheoli perfformiad fod yn ddigon cadarn os yw'r Bwrdd lechyd, i bob diben, am ddangos tystiolaeth o wella gwasanaethau drwy gyfraniad amryw o ddarparwyr partner.

Mae'r Bwrdd lechyd yn dal i ddatblygu dull mwy strategol o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i wella ar ei weithgareddau ad hoc blaenorol

114. Rhoddwyd prosesau ar waith i gasglu barn a phrofiadau cleifion o'r Ymddiriedolaethau blaenorol a'r hen Fyrddau lechyd Lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn canolbwyntio ar sefydlu dull mwy strategol a chydgyssylltiedig o weithredu er mwyn datblygu fframwaith a gweithdrefnau ategol ehangach a mwy safonol.
115. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae'r Bwrdd lechyd yn gorffen y gwaith o ad-drefnu ei systemau Cyfathrebu a Chynnwys Cleifion a'r Cyhoedd - yn cynnwys strwythur staffio, gweithgorau a strategaeth ategol newydd. Mae'r strategaeth, sef Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2010-2015 ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ac nid yw wedi'i chymeradwyo'n llawn gan y Bwrdd eto. Mae'n cynnwys yr arferion a'r gweithdrefnau blaenorol a gynhaliwyd gan y corff rhagflaenol yn ogystal â chynigion newydd i gynnwys cleifion a'r cyhoedd ac ymgysylltu â hwy. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu wedi'u blaenoriaethu eto bryd ac nid ydynt yn cynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni. Mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu ymgynghori â'i randdeiliaid ar fersiwn derfynol a statws y strategaeth a datblygu cynllun gweithredu ategol.
116. Mae'r strwythur staffio newydd, a arweinir gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol, wedi dwyn ynghyd gymysgedd briodol o dimau yn cynnwys staff profiadol ym meysydd ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, Cymorth Cyfreithiol a Chymorth i Gleifion, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chydgyssylltwyr Prosiectau Gwirfoddoli. Mae'r timau Cyfathrebu a Marchnata hefyd am symud i'r un lleoliad â'r staff Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd, er mwyn gwella trefniadau cydweithio. Felly mae'r Bwrdd lechyd wedi sicrhau bod adnoddau digonol ar waith i gyflawni'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.
117. At hynny, mae gweithgorau mewnol ac allanol yn cael eu sefydlu sydd â rolau a chyfrifoldebau penodol am gynllunio a gweithredu prosiectau cynnwys cleifion a'r cyhoedd a gwella strwythurau cyfathrebu. Mae'r grwpiau hyn yn dwyn ynghyd gydweithwyr o wasanaethau mewnol a phartneriaid allanol.
118. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth bresennol yn dangos yn glir pa ddefnydd a wneir yn y pen draw o weithgarwch cynnwys cleifion a'r cyhoedd, nac effaith y gweithgarwch hwnnw, ac nid yw'r rhestr o fesurau perfformiad yn cynnwys canlyniadau targed, i adlewyrchu effaith prosesau ymgysylltu ar ddarparu gwasanaethau.

Adran 5: Adolygiadau o archwiliadau perfformiad penodol

119. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dwyn ynghyd y canfyddiadau o waith archwilio perfformiad a edrychodd ar feysydd darparu gwasanaethau penodol o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'n crynhoi canfyddiadau gwaith a wnaed ar y canlynol:
- Adolygiad o staffio wardiau;
 - Adolygiad o Reoli Meddyginiaethau: Rhagnodi Rhyngwyneb;
 - Cywirdeb gwybodaeth am restrau aros;
 - Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion;
 - Arlwyio mewn ysbytai.

Mae'r gwaith archwilio perfformiad wedi amlygu enghreifftiau cadarnhaol o ddarparu gwasanaethau, ond hefyd gyfleoedd i leihau amrywiaeth mewn nifer o feysydd gwasanaeth a gwella diogelwch ac effeithlonrwydd rheoli meddyginiaethau

120. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o waith archwilio perfformiad lleol arall. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiadau hyn yn Arddangosyn 2 isod.

Arddangosyn 2: Rhaglen o waith perfformiad lleol

Adolygiad o Drefniadau Staffio Wardiau

Nid oedd trefniadau staffio wardiau'r Bwrdd Iechyd yn gytbwys, ac roedd angen gwaith pellach i ddeall y gwahaniaethau hyn. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- nid oes eglurhad clir o'r gwahaniaethau mewn lefelau staffio wardiau drwy'r sefydliad cyfan, gyda lefelau cymharol uwch yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais;
- mae costau staffio nyrsys yn uchel yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, yn enwedig o fewn y wardiau meddygol;
- ceir anghysondebau drwy'r sefydliad cyfan o ran y ffordd y caiff staff eu defnyddio a'u rheoli.

Adolygiad o Reoli Meddyginiaethau: Rhagnodi Rhyngwyneb

Roedd gwella'r broses o reoli meddyginiaethau yn flaenoriaeth gorfforaethol ac roedd y Bwrdd Iechyd yn datblygu strategaeth systemau cyfan yr oedd ei hangen yn fawr. Ond roedd arferion wrth y rhyngwyneb rhagnodi yn arwain at risgiau diogelwch sylweddol ac aneffeithlonrwydd, ac roedd y trefniadau ar gyfer monitro diogelwch, ansawdd a chostau yn annigonol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd prosesau cydgyllunio wedi gwella ond nid oedd y cyfeiriad strategol ar gyfer staff a gwasanaethau wrth y rhyngwyneb rhagnodi wedi'i nodi'n glir;
- mae risgiau diogelwch sylweddol ac achosion o aneffeithlonrwydd yn codi ar bwyntiau amrywiol ar hyd y llwybr cleifion a all gael effaith ehangach ar gleifion a darparu gwasanaethau;
- roedd diffyg data cyffredinol yn golygu nad oedd y Bwrdd Iechyd yn gwybod graddau gwirioneddol materion diogelwch cleifion, nac ychwaith p'un a oedd yn darparu gwasanaethau ansawdd uchel a chost effeithiol.

Cywirdeb gwybodaeth am restrau aros

Roedd digonolrwydd y trefniadau ar gyfer cofnodi data rhestrau aros a chyflwyno adroddiadau arno yn dderbyniol. Fodd bynnag, roedd gennym rai pryderon am gywirdeb y data rhestrau aros a oedd yn tannatgan perfformiad y Bwrdd Iechyd. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- roedd gennym rai pryderon am gywirdeb y data rhestrau aros a oedd yn tannatgan perfformiad y Bwrdd Iechyd;
- cafwyd gennym fod digonolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cofnodi data rhestrau aros a chyflwyno adroddiadau arno yn dderbyniol, er bod gennym rai pryderon am gynaliadwyedd yr adnoddau a'r systemau TGCh i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targed Amser Atgyfeirio i gael Triniaeth.

Gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion

Gwnaed cynnydd da o ran gwella gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion ers ein hadolygiad sylfaenol yn 2005, ond mae'r agenda wella wedi'i llywio'n bennaf gan hen Ymddiriedolaeth y GIG ac nid yw wedi adlewyrchu dull system gyfan ehangach. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- er bod cynllun gweithredu aml-asiantaeth cyffredinol ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol, mae'r gwaith o gynllunio gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr agenda moderneiddio iechyd;
- mae'r ddarpariaeth o wasanaethau Gofal Sylfaenol wedi gwella yn y gymuned iechyd, er bod rhai amrywiadau o ran graddau a hyfforddiant gwasanaethau, ac mae'r broses o ymgysylltu â staff practisau yn parhau i fod yn broblem;
- mae'n glir bod ystod gwasanaethau cymunedol wedi ehangu a bod llai o ddibyniaeth ar welyau cleifion mewnol. Fodd bynnag, nid yw rhai gwasanaethau yn cydymffurfio â chanllawiau polisi ac mae angen i rai eraill ddatblygu ymhellach;
- mae therapïau seicolegol wedi ehangu'n sylweddol ac mae model gofal haenog yn cael ei weithredu, er nad yw pob meddygfa yn gallu cael gafael ar wasanaethau cynghori;
- gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran diwallu anghenion tai a llety pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ond mae angen sicrhau gwelliant pellach;
- ceir tystiolaeth o ymrwymiad clir i gefnogi a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn eu gofal, er bod angen gwneud cynnydd pellach.

Arlwyo mewn ysbytai

Er bod eisoes ffocws proffesiynol cryf ar faeth sy'n dangos llawer o agweddau ar arfer da cydnabyddedig, mae angen sefydlu trefniadau cynllunio arlwyo a chynllunio busnes cyson, a mynd i'r afael ag amrywiadau mewn safonau ar lefel ward. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae agenda maeth wedi'i nodi'n glir o fewn y Bwrdd Iechyd, er bod angen sefydlu fframwaith cynllunio a busnes cyson ar gyfer arlwyo. Mae trefniadau caffael bwyd effeithiol a diogel ar waith, er bod systemau cynhyrchu bwyd a rheoli costau yn amrywio, gan awgrymu bod potensial i sicrhau gwell cysondeb a gwella effeithlonrwydd;
- mae'r rhan fwyaf o wardiau'n cael bwyd mewn cyflwr da, er bod lle i wella profiad cleifion o hyd;
- mae rheolwyr wardiau yn canolbwyntio'n glir ar yr angen i sicrhau cymorth priodol o ran arlwyo a maeth, er bod perfformiad yn amrywio ac ni chofnodwyd rhai agweddau ar statws maethol cleifion;
- cesglir barn cleifion ar fwyd ysbyty a gwasanaethau arlwyo mewn sawl ffordd ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu gwneud hyn yn fwy cyson drwy rannu'r canlyniadau'n ehangach.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy llythyr archwilio blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau Archwilio Ariannol	
Cyfrifon Ariannol - Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu	Mehefin 2010
Adolygiad Archwilio Cyfalaf	Mehefin 2010
Adolygiad Archwilio Mewnol	Mehefin 2010
Cronfeydd Elusennol - Adroddiad i'r Rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu	Rhagfyr 2010
Adroddiadau Archwilio Perfformiad	
Adolygiad o drefniadau staffio wardiau	Ebrill 2010
Cywirdeb gwybodaeth am restrau aros;	Ebrill 2010
Adolygiad o Reoli Meddyginiaethau: Rhagnodi Rhyngwyneb	Mehefin 2010
Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion	Rhagfyr 2010
Arlwyo mewn Ysbytai	Rhagfyr 2010
Adroddiadau eraill	
Strategaeth Archwilio	Mawrth 2010
Llythyr archwilio blynyddol interim	Mehefin 2010
Adroddiad Archwilio Blynyddol	Rhagfyr 2010

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660
E-bost: wales@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk